Cofnodion Cyfarfod Cyffredin **CYNGOR TREF RHUTHUN** a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, nos Lun, 24 Hydref 2016 am 7:00p.m.

PRESENNOL: Y Cynghorydd Geraint Woolford (Maer)
Y Cynghorwyr Stephen Beach, June Derry, Ken Hawkins, Rosie Hughes-Moseley, Menna Jones, Simeon Jones, Ian Lewney, Robert Owen-Ellis, Anne Roberts, Heather Williams ac Emrys Wynne.

101. ADRODDIAD YR HEDDLU

Croesawodd a chyflwynodd y Maer Sarjant Jonathon Hill, a esboniodd ei fod wedi dechrau ar ei ddyletswyddau yn ardal Rhuthun yr wythnos flaenorol. Amlinellodd y prif faterion plismona yn Rhuthun ar hyn o bryd, yn cynnwys cymryd cerbydau dan Adran 59, saith trosedd dwyn o siopau wedi'u cofnodi a dwy warant cyffuriau a weithredwyd yn Stryd y rhos. Rhannodd dabl yn nodi troseddau yn Rhuthun rhwng 23.05.16 a 23.10.16, a chynigiodd ddarparu ffigurau cymariaethol ar gyfer cyfnod yr haf a'r gaeaf y tro nesaf. Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chodi materion, a chyfeiriwyd at y ffigurau gyrru'n wrthgymdeithasol a gyrru'n anystyriol, bod chwistrellau wedi'u canfod ger y cabanau ar safle Ysgol Pen Barras, ac a oedd samplau DNA wedi eu casglu o'r ffenestr wedi ei thorri yn y siop dodrefn ystafell ymolchi newydd. Anogodd Sarjant Hill yr aelodau i gysylltu ag ef os oes ganddynt unrhyw bryderon, ac roedd yn hapus i'w gyfeiriad e-bost gael ei gynnwys yn y cofnodion: Jonathon.Hill@nthwales.pnn.police.uk

PENDERFYNWYD*: nodi cynnwys adroddiad yr Heddlu a derbyn gwybodaeth am y broses Cyfiawnder Adferol y tro nesaf y bydd yr Heddlu yn bresennol yng nghyfarfod y Cyngor Tref.*

102. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr James Bryan, Bob Costain ac Elisabeth Culshaw.

103. DATGAN BUDDIANNAU

Ni chafwyd unrhyw ddatganiad o fudd personol nac ariannol.

104. ADRODDIAD Y MAER

Adroddodd y Maer am yr ymweliadau isod ers y cyfarfod diwethaf.

30.09 Pedwar bore coffi Macmillan Cancer Support
Digwyddiad Symudedd ar gyfer Pobl Hŷn
05.10 Gwahoddiad i gyfarfod rheolwyr tafarn y Cross Keys
Agoriad swyddogol y Ganolfan Fugeiliol ac Ymchwil newydd yn Ysgol Brynhyfryd
06.10 Agor noson Bingo yng Nghanolfan Awelon er budd Macmillan Cancer Support
07.10 Cyfarfod gyda Rod Bowden, Cadeirydd Cymdeithas Cymuned Llanfwrog
08.10 Llongyfarchiadau i ddynes yn dathlu ei phen-blwydd yn 100 oed yn Awelon
Noson Reslo i godi arian at elusen yn Theatr John Ambrose
09.10 Agor y Diwrnod Dyrnu yn Ocsiwn Rhuthun
14.10 Agor siop Deluxe Bathrooms yn Stryd y Ffynnon
16.10 Gwasanaeth Sul Dinesig Towyn
17.10 Agoriad swyddogol amlosgfa Llanelwy
21.10 Cyfarfod chwarterol Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru yn y Rhyl

105. ADRODDIADAU'R AELODAU

Cyng. Stephen Beach — Bore coffi Macmillan, ffarwelio â Judith Bennett – ar achlysur ei hymddeoliad fel Rheolwr Swyddfa Rhuthun Cyngor ar Bopeth, Gwarchod y Gymdogaeth, cael copïau o lofnod y cyn Faer Lecomber oddi ar gofnodion Cyngor Tref Rhuthun yn yr Archifdy ar ran aelod o'r

	teulu a Chyfarfod Blynyddol Cymdeithas Ddinesig Rhuthun a'r Cylch.
Cyng. Robert Owen-Ellis	Banc bwyd x 4, archwiliad Iechyd a Diogelwch ac archwilio'r safle yn Ysgol Pen Barras a chyfarfod llawn y Llywodraethwyr a Chyfarfod Blynyddol Cymdeithas Ddinesig Rhuthun a'r Cylch.
Cyng. Menna Jones	Cyfarfod Grŵp Ffocws Sgwrs y Sir ar gyfer cynrychiolwyr Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned yng Nghanolfan Cae Cymro, Clawddnewydd, cyfarfod Pwyllgor Cwricwlwm Ysgol Borthyn a Chyfarfod Blynyddol Cymdeithas Ddinesig Rhuthun a'r Cylch.
Cyng. Anne Roberts	Dau gyfarfod Ymlaen Rhuthun, cyfarfod Tîm y Dref a Chyfarfod Blynyddol Cymdeithas Ddinesig Rhuthun a'r Cylch.
Cyng. Heather Williams	Cyfarfod Blynyddol Cymdeithas Ddinesig Rhuthun a'r Cylch.
Cyng. Emrys Wynne	Cyfarfod Grŵp Ffocws Sgwrs y Sir ar gyfer cynrychiolwyr Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned yng Nghanolfan Cae Cymro, Clawddnewydd.

106. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

PENDERFYNWYD*: cadarnhau bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Medi 2016 yn gywir.*

107. MATERION YN CODI

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

108. Y PWYLLGOR AMWYNDERAU

Yn absenoldeb Cadeirydd y Pwyllgor, cyflwynodd y Maer gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Hydref 2016.

PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfod.*

109. Y PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Hydref 2016.

PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfod.*

110. SUL Y COFIO – 13 TACHWEDD 2016

Derbyniodd yr aelodau lythyr yn amlinellu'r trefniadau ar gyfer gwasanaeth Sul y Cofio eleni a gofynnwyd iddynt gyfarfod yn Neuadd y Dref erbyn 10.30am.

PENDERFYNWYD*: derbyn y manylion.*

111. CAIS AM GYMORTH ARIANNOL – CANOLFAN LLANFWROG

Cyflwynodd y Maer ddiweddariad yn dilyn ei gyfarfod ef a'r Clerc gyda Mr Rod Bowden, Cadeirydd Cymdeithas Gymuned Llanfwrog, lle'r esboniwyd sefyllfa'r Cyngor Tref, sef ei fod yn barod i roi cymorth ariannol gwerth £5,000 tuag at osod grisiau a lifft yn yr adeilad, yn amodol ar dderbyn y swm llawn sy'n ofynnol ar gyfer y prosiect trwy geisiadau grant eraill.

PENDERFYNWYD*: anfon llythyr at Gymdeithas Cymuned Llanfwrog yn cadarnhau sefyllfa Cyngor Tref Rhuthun.*

112. CAIS AM GYMORTH ARIANNOL – CYLCH MEITHRIN RHUTHUN

Bu'r aelodau'n ystyried cais am gymorth ariannol gwerth £700.00 gan Gylch Meithrin Rhuthun. Cafwyd sylwadau gan aelodau nad oedd y ffurflen yn gofyn ar gyfer beth roedd y cyllid, ac y gallai'r Cyngor Tref roi cymorth ariannol tuag at eitem neu brosiect penodol ond nid tuag at gyflogau a chostau refeniw cyffredinol.

PENDERFYNWYD*: diwygio'r ffurflen Cais am Gymorth Ariannol i gynnwys adran ar gyfer nodi pwrpas y cyllid, a gofyn am y manylion hyn gan Gylch Meithrin Rhuthun.*

113. CYLCH GORCHWYL Y PWYLLGOR PWERAU BRYS

Ystyriwyd geiriad cylch gorchwyl y Pwyllgor Pwerau Brys a ddefnyddir gan Gyngor Tref

Thatcham, a'i gymeradwyo. Awgrymodd aelod fod angen diweddaru'r Rheolau Sefydlog ond penderfynwyd gadael hyn am nawr oherwydd y posibilrwydd o ad-drefnu trefniadaeth Cynghorau Tref a Chymuned.
***PENDERFYNWYD**: ychwanegu'r geiriau at y Rheolau Sefydlog cyfredol.*

114. ADRODDIAD YR ARCHWILYDD ALLANOL

Derbyniodd yr aelodau adroddiad diwedd archwiliad BDO ac esboniodd y Clerc fod y pwynt a godwyd ynghylch prisio asedau yn sylw cyffredin a dderbyniwyd gan lawer o gynghorau tref a chymuned eraill, ac y byddai'n gofyn am gyngor gan yr archwilydd mewnol o ran yr agwedd hon yn yr archwiliad nesaf. Hefyd darllenodd lythyr gan BDO yn esbonio eu bod yn ymgynghori â Swyddfa Archwilio Cymru er mwyn sicrhau strwythur ffioedd teg a chymaradwy rhwng y ddau gwmni archwilio allanol sy'n gweithredu ar ran Swyddfa Archwilio Cymru yng Nghymru, ac y byddai'r anfoneb am y gwaith archwilio allanol yn cael ei chyflwyno unwaith y bo'r ymgynghori wedi dod i ben.
***PENDERFYNWYD**: nodi'r adroddiad a chynnwys y llythyr gan BDO.*

115. GOHEBIAETH

i. Datganiad gan Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol ynghylch Diwygio Llywodraeth Leol
ii. E-bost ynghylch Adroddiad Blynyddol drafft 2017/18 Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol
iii. Manylion sesiynau hyfforddiant a gynigir gan Un Llais Cymru yn yr ardal leol
iv. Ymgynghoriad Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gog. Cymru - blaenoriaethau plismona
v. Cynhadledd Ymgysylltu â'r Trydydd Sector y Comisiynydd Heddlu a Throsedd
vi. Cylchlythyr Gwylio Cyflymder Cymunedol Gogledd Cymru
vii. Ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch sefydlu Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol i Gymru
viii. E-bost ynghylch 'Mae'r dreth stamp yng Nghymru ar fin newid'
ix. Etholiadau Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned 2017 – llythyr gan Gyngor Sir Ddinbych
x. Archwilio eich Archif, dydd Gwener, 18 Tachwedd, 12pm – 2pm â'r cogydd Bryn Williams
xi. Arolwg o'r Safonau Cenedlaethol ar gyfer y Cynghorau Iechyd Cymuned
xii. Adolygu digonolrwydd darpariaeth gofal plant yn Sir Ddinbych
***PENDERFYNWYD**: nodi'r ohebiaeth.*

116. DATGANIAD ARIANNOL

Gofynnwyd i'r aelodau gymeradwyo'r Datganiad Ariannol am y cyfnod yn diweddu 30 Medi 2016.
***PENDERFYNWYD**: derbyn a chymeradwyo'r Datganiad Ariannol am y cyfnod yn diweddu 30 Medi 2016.*

117. CYFRIFON I'W TALU

***PENDERFYNWYD**: cymeradwyo talu'r cyfrifon a ganlyn.*

937	Cyng. Heather Williams	Costau teithio i gyfarfod grŵp ffocws Sgwrs y Sir yn Nhrefnant, 22.09.16		£9.90
938	CCLlGaChC	Dau ginio yn dilyn y cyfarfod ar 21.10.16		£32.00
D.D.	Canda Copying Ltd	Rhentu a chopïau isafswm	*	£129.14
939	Canda Copying Ltd	Copïau du a gwyn ychwanegol	*	£26.09
940	Canda Copying Ltd	Copïau lliw ychwanegol	*	£15.23
941	Llanfwrog CIC	Torri glaswellt – Hydref		£342.60
942	Glascoed Timber	Gwasanaethu'r biniau baw cŵn	*	£1,056.00
943	Cyllid y Wlad	Treth Incwm ac Yswiriant Gwladol		£252.83
944	Marian Rees	Cyfieithu ar y pryd	*	£90.00
945	Cyngor Sir Ddinbych	Cyfraniad tuag at ddigwyddiad ail-lenwi yn Rhuthun, Rali GB Cymru, 30.10.16		£1,275.00
946	Sandra Williams	100 o stampiau ail ddosbarth		£55.00

947	Rick Parr (Rickx Disco)	Llogi'r system sain ar gyfer Sul y Cofio		£80.00
948	J & C Brimble	Dyfrio'r basgedi blodau		£858.00
949	Gwasanaethau Coed Cymru	Lleihau coronau'r coed ar Sgwâr Sant Pedr	*	£288.00
950	Viking	10 pecyn o bapur gwyn	*	£32.16
951	Cyngor Sir Ddinbych	Fan ag ysgol godi – tynnu'r basgedi crog	*	£360.00
952	Glasdon UK Ltd	Bin metel 50 litr i'w osod ar y wal	*	£183.87

118. TROSGLWYDDO ASEDAU ARFAETHEDIG – YMGYNGHORI DECHREUOL

Trafododd yr aelodau y cyflwyniad gan Simon Billington yn y cyfarfod blaenorol. Cadarnhawyd nad oedd unrhyw awydd i gymryd cyfrifoldeb am yr asedau hyn ar hyn o bryd.

PENDERFYNWYD*: ysgrifennu at Simon Billington a'i Bennaeth Gwasanaeth i gadarnhau'r uchod, a gofyn am gysylltu gyda'r Cyngor Tref o ran cynlluniau a thrafodaethau yn y dyfodol.*

119. AIL ENWI'R FFORDD GYSWLLT OGLEDDOL

Ystyriodd yr aelodau a ddylid awgrymu enw newydd ar gyfer y ffordd uchod. Byddai'n ofynnol talu am ddau arwydd ar gost o £219.00 yr un, ynghyd â chostau gweinyddol. Cynigiwyd ac eiliwyd yr enw Lôn Parcwr Newydd gan y Cynghorwyr Ken Hawkins a Heather Williams, a chynigiwyd ac eiliwyd gwelliant, sef Ffordd Glasdir, gan y Cynghorwyr Anne Roberts ac Emrys Wynne. Pleidleisiwyd a phleidleiswyd o blaid y cynnig Ffordd Glasdir was carried.

PENDERFYNWYD*: cysylltu â Chyngor Sir Ddinbych i awgrymu enwi'r ffordd yn Ffordd Glasdir.*

120. CALENDR ELUSENNOL Y MAER

Gofynnodd y Maer am ganiatâd i dalu am argraffu ei galendrau elusennol 2017 o gronfeydd y Cyngor Tref, ar gost o £491.19 + TAW, i'w ad-dalu o werthiant y calendrau maes o law.

PENDERFYNWYD*: cymeradwyo talu'r anfoneb am argraffu'r calendrau elusennol o gronfeydd y Cyngor Tref, i'w ad-dalu maes o law.*

121. GWASANAETHAU ARCHWILIO INTERIM

Darllenodd y Clerc lythyr oddi wrth archwilydd mewnol y Cyngor Tref, JDH Services Ltd, yn cynnig cynnal archwiliad interim. Trafodwyd hyn gan yr aelodau.

PENDERFYNWYD*: fod y system bresennol o archwilio mewnol yn ddigonol.*

122. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD*: cadarnhau mai dyddiad cyfarfod nesaf y Cyngor Tref fyddai nos Lun, 28 Tachwedd 2016 am 7:00pm.*